UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

RHAGLEN

A G A P E

2005 – 2007

Yn y pecyn hwn cewch:

- Cyflwyniad i'r acronym AGAPE
- Patrwm o weddi at Sul cyntaf Ionawr 2005
- Disgwyliadau ar ran Eglwysi: **A**ddysg
  Gweinidogaeth
  Arweinyddiaeth
  Prosiectau
  Effeithiolrwydd
- Disgwyliadau ar ran Cyfundebau
- Poster
- Ffurflen gais am grant

Ysgogydd y Rhaglen

Cam pwysig iawn wrth osod sylfeini'r gwaith fu penodi'r Parchg. Meirion Morris yn Ysgogydd. Cafodd y cwmni fu yn ei seminar ar "Symud ymlaen" yn Undeb Penygroes flas mawr ar y cyflwyniad a'r trafod dan ei arweiniad. Camp Meirion yw ei fod wedi llwyddo i droi syniadau yn ffeithiau wrth arwain ei ofalaeth ym mro Aled a'r cyffiniau tuag at gynnydd a thyfiant.

Mae eisoes yn weinidog bro, a gofal diadell fechan yr Annibynwyr yn Llansannan ganddo. Bydd yn symbylydd ac arweinydd medrus ac egnïol. Croesewir ef yn fawr iawn iw waith.

Bydd yn dechrau arni ar Chwefror 1af. 2005. Bydd yn dda ganddo glywed gennych.

Eich cyfle
Credwn fod yma Raglen sy'n llawn posibiliadau cyffrous. Fe'i cyflwynwn yn hyderus i'ch sylw. Ni ddaw dim ohoni oni bai eich bod chi yn cydio yn y cyfle. Nid rhaglen a osodir ar yr eglwysi yw hon, ond darpariaeth ac adnoddau i chi eu defnyddio. Y gobaith yw nad oes un eglwys drwy'r enwad na all fod ar ei mantais, o gydio yn y cyfle. Edrychwn ymlaen hefyd at weld llawer o gydweithio rhwng enwadau.

Dewch â'ch gobeithion a'ch cynlluniau i'r golwg os gwelwch yn dda. Dywedwch beth sy'n digwydd yn eich plith, rhannwch eich stori. Byddai gweld ffrwd o hanesion yn *Y Tyst* yn ysbrydoli eglwysi eraill ac yn galondid i bawb ohonom. Bydd Ysgogydd AGAPE wrth ei fodd yn clywed gennych.

Awn ati! Mentrwn! Gweithredwn!

Dr. Hefin Jones (Llywydd yr Undeb)
Dr. Geraint Tudur (Cadeirydd AGAPE)
Parchg. Dewi M. Hughes (Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb)

Hyderwn y gwelwch yn dda i ystyried pa wasanaeth yr ydych chwi yn ei gynnig i adeiladu eglwys Dduw yn ein gwlad. Mae'r dyddiau yn ddrwg a'r gweithwyr yn brin. Holed pob un ei gydwybod. A ydych wedi cysegru eich doniau i wasanaethu Crist? Os carech wybod mwy am yr adnoddau sydd ar gael ac am y cyfleon i dderbyn hyfforddiant, cysylltwch â Choleg yr Annibynwyr neu Ysgogydd AGAPE.

Parchg Athro Euros Wyn Jones (Cyfarwyddwr a Chydlynydd Hyfforddi yn y Gogledd)
01248 723240; euros@helyg.fsnet.co.uk

Parchg Ddr. Noel A. Davies (Cydlynydd Hyfforddi yn y De)
01267 676626; n.a.davies@drindod.ac.uk

Parchg Meirion Morris (Ysgogydd Rhaglen AGAPE)
01745 870601; 07799 738181

- Sojourners (http://www.sojo.net)
- Celloedd (www.cellchurch.info) (http://www.cellchurch.co.uk) (http://www.accn.org.uk)
- “Emerging Church” (http://www.churchnext.net) (http://www.encountersontheedge.org.uk)
- Eglwys heb Furiau (http://www.churchwithoutwalls.org.uk)
- Willow Creek (www.willowcreek.org)

Mae’n faes eang, ond yn sylfaenol yr hyn sydd ei angen yw dychymyg a pharodrwydd i fentro yn enw’r un a ddywedodd, “Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd.”

5. Dylid osgoi'r demtasiwn i roi'r argraff o ragoriaeth. Mae perygl wedi'r hyfforddiant a'r cymorth ymarferol, i fagu sefyllfa o ddibyniaeth. Arwain yr unigolyn i ymddiried yn Nuw drwy fod yn was-arweinydd yw'r dasg.

7. Yn ôl safonau'r Beibl y mae bod yn arweinydd yn dasg anferthol, na ellid ei chyflawni heb gymorth Iesu Grist trwy ddawn yr Ysbryd Glân. Dim ond trwy blygu i'w ewyllys y gall yr arweinydd gyflawni pwrpas dwyfol.

8. Nid person di-bechod fydd yr arweinydd, eto dylid gweld yn ei wyneb y dymuniad i ddilyn ôl traed ei feistr.

9. Fe fydd cyffesu'n agored ei deimladau yn gymorth gwirioneddol i'r arweinydd yn ei argyfwng. Ni fyddai'n gwneud mwy na dilyn seintiau'r oesau mewn argyfyngau tebyg.

10. Didwylledd ydy calon y cymeriad Cristnogol.

"Athro, gwyddom dy fod yn ddiffuant, ac yn dysgu ffordd Duw yn ddiffuant; ni waeth gennyt am neb, ac yr wyt yn ddi-dderbyn-wyneb."

- -

Cymhellwn yr eglwys leol i gymryd amser i sylwi'n ofalus ar ei haelodau, i weld pwy sydd yno sy'n arddangos nodweddion arweinydd. Byddai'n dda gennym gael gwybod, i'w gwahodd i sesiynau hyfforddi.